

Cais Rhyddid Gwybodaeth	FOI 21-062	23 Mawrth 2021
-------------------------	------------	----------------

1. Y nifer o bobl a gafodd frechiad yn erbyn covid-19 cyn 25 Ionawr, 2021, nad oeddynt naill ai'n weithwyr ar y rheng flaen nac yn hŷn na 70 oed;

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrechu'n ddygn i sicrhau bod yr holl staff a phreswylwyr cymwys yn ardal y Bwrdd Iechyd wedi cael brechiad. Y cyfanswm ar gyfer y grwpiau 'wedi'u cynnwys' (rhestrir hwy isod) ar gyfer y cyfnod hyd at 25 Ionawr yw **252** o frechlynnau. O fewn y rhifyn hwn, mae'n debygol bod nifer o staff nad ydym wedi gallu eu dosbarthu'n briodol i'r grŵp JCVI cywir ac roedd rhai unigolion yn cael eu hadnabod yn ofalwyr pan oedd rhywun yn un o'r grwpiau oedran hŷn yn cael ei frechu. Mae gwaith ansawdd data yn parhau fel rhan o'r rhaglen weithdrefnol. Noder y grwpiau JCVI yr ydym wedi'u cynnwys a'u heithrio i roi'r ffigwr hwn:

Wedi'u heithrio:

Y rheiny sy'n 70 oed neu hŷn
Y rheiny sy'n 75 oed neu hŷn
Y rheiny sy'n 80 oed neu hŷn
Gweithwyr cartrefi gofal
Gweithwyr gofal iechyd
Unigolion risg uchel dan 70 oed
Unigolion risg cymedrol dan 70 oed
Gweithwyr gofal cymdeithasol

Wedi'u cynnwys:

Y rheiny sy'n 50 oed neu hŷn
Y rheiny sy'n 55 oed neu hŷn
Y rheiny sy'n 60 oed neu hŷn
Y rheiny sy'n 65 oed neu hŷn
Gweddill y boblogaeth

2. Manylion y polisi ynghylch defnyddio brechlynnau covid-19 'yn weddill' (h.y. dosiau heb eu defnyddio ar ddiwedd sesiwn frechu) cyn 25 Ionawr, 2021;

Mae prosesau mewn lle i ddefnyddio unrhyw frechlynnau 'yn weddill' posibl drwy or-drefnu apwyntiadau mewn clinigau, adolygu a monitro presenoldeb drwy gydol y dydd mewn cymhariaeth â chyflenwad o'r brechlyn. Mae rhestr byr rybudd i unigolion sy'n gymwys am y brechlyn, a phrosesau i gysylltu â phobl sy'n gymwys ac o fewn rhestr flaenoriaeth y JCVI ar fyr rybudd dros y ffôn i lenwi unrhyw apwyntiadau gwag sy'n digwydd drwy gydol y dydd.

3. Pa rôl (os unrhyw un) y gwnaeth yr adran fferyllol ei chwarae yn dosbarthu unrhyw frechlynnau 'yn weddill' yn erbyn covid-19?

Mae staff y Fferyllfa ynghlwm â cham gwanhau'r brechlyn Pfizer ac felly maent yn gweithio'n agos â rheolwr y clinig i adolygu llif cleifion a'r gwaith paratoi brechlynnau angenrheidiol drwy gydol sesiwn y clinig. Mae hyn yn arbennig o bwysig tuag at ddiwedd y clinig i leihau'r nifer o frechlynnau sydd ar ôl. Nid yw staff y fferyllfa yn chwarae rhan yn unrhyw waith dosbarthu 'brechlynnau yn weddill'.

4. Unrhyw ohebiaeth yn cynnwys y cod cofrestru i drefnu brechlyn yn erbyn covid-19 a anfonwyd gan aelodau'r bwrdd gweithredol neu'r prif fferylllydd cyn 27 Ionawr.

Nid ydym yn ymwybodol o ohebiaeth gan y Prif Fferylllydd neu'r Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys cod cofrestru i drefnu brechlyn.